**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1464
Ein cyf/Our ref SM/10279/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Deisebau@senedd.cymru

12 Rhagfyr 2024

Annwyl Carolyn,

**P-06-1464 Caniatáu i deuluoedd Cymru sydd wedi colli baban cyn 24 wythnos gael tystysgrif colli baban**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 22 Tachwedd ynglŷn â Deiseb.

Rydym am i bawb yng Nghymru sydd wedi cael profedigaeth wybod bod cymorth ar gael iddynt, ac rydym yn gweithio ar nifer o fentrau i wella mynediad at gymorth profedigaeth i blant, pobl ifanc, ac oedolion yng Nghymru.

Ar ôl i Lywodraeth y DU lansio cynllun gwirfoddol i alluogi rhieni sydd wedi colli babi cyn 24 wythnos o feichiogrwydd i wneud cais am dystysgrif am ddim i gydnabod eu colled, gwnaed cytundeb mewn egwyddor gyda Llywodraeth y DU i ymestyn y cynllun i gynnwys Cymru. Yn anffodus, cafodd y trafodaethau hyn eu gohirio oherwydd yr Etholiad Cyffredinol.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ystyried y ffordd orau o ymestyn y cynllun i gynnwys Cymru heb oedi pellach. Rwyf hefyd wedi cwrdd â'r Farwnes Merron, sydd â chyfrifoldebau cyfatebol yn Llywodraeth y DU i drafod ymestyn y cynllun tystysgrif colli babi i Gymru.

Mae trafodaethau rhwng fy swyddogion a Llywodraeth y DU wedi ailddechrau, ac mae’r gwaith i weithredu’r cynllun yng Nghymru yn mynd rhagddo.


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,



**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing